# RHEOLAU FFIOEDD COFRESTRU 2026-2027

Yn cyd-fynd â phob cais ym mhob categori yn y tabl isod bydd y ffi ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027:

| **Ceisiadau i adnewyddu cofrestriad yn flynyddol** | **Ffi 26/27** |
|---|---|
| Ffi adnewyddu flynyddol<br>Cais i adnewyddu cofrestriad blynyddol:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau<br>ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2027 a ddaeth i law ar 31 Mawrth 2026 neu cyn hynny. | £425 |
| Ffi adnewyddu flynyddol i enillwyr incwm isel[1]<br>Cais i adnewyddu cofrestriad blynyddol:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2027 ceisiadau a ddaeth i law ar 31 Mawrth 2027 neu cyn hynny. | £290 |
| Cais am adnewyddiad blynyddol yn y gofrestr o fyfyrwyr-optometryddion neu'r gofrestr o fyfyrwyr-optegwyr cyflenwi ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Medi 2026 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2027 a ddaeth i law ar 31 Awst 2026 neu cyn hynny. | £30 |

| **Ceisiadau i adnewyddu cofrestriad yn flynyddol wrth ymuno, trosglwyddo neu ddychwelyd i'r gofrestr** | **Ffi 26/27** |
|---|---|
| Ffi adnewyddu flynyddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2026 ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027, cyfradd pro rata yn seiliedig ar ddyddiad ymuno â'r gofrestr:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau | £106.25 y chwarter neu ran ohono |

[1] diffinnir enillydd incwm isel fel ymgeisydd neu gofrestrai cwbl gymwys yr amcangyfrifir bod cyfanswm ei incwm unigol yn is na £16,000 ar gyfer y flwyddyn ganlynol rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027.

| Ceisiadau i drosglwyddo cofrestriad | Ffi 26/27 |
|---|---|
| Cais i drosglwyddo rhwng cofrestri llawn ar gyfer y flwyddyn gyfan neu ran ohoni sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2027. | £45 |
| Cais i drosglwyddo o'r gofrestr o fyfyrwyr-optometryddion i'r gofrestr o optometryddion neu o'r gofrestr o fyfyrwyr-optegwyr cyflenwi ar ôl cwblhau llwybr cofrestru sydd wedi'i achredu gan y Cyngor Optegol Cyffredinol. | £45 |

| Ceisiadau i ddychwelyd i gofrestriad | Ffi 26/27 |
|---|---|
| Cais cychwynnol i ddychwelyd i'r gofrestr:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau gan gynnwys enillwyr incwm isel. | £80 |
| Cais i ddychwelyd i'r gofrestr o fyfyrwyr-optometryddion neu'r gofrestr o fyfyrwyr-optegwyr cyflenwi yn dilyn tynnu neu ddileu o'r cofrestrau ar gyfer y flwyddyn gyfan neu ran ohoni sy'n dechrau ar 1 Medi 2026 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2027. Ni chodir ffi adnewyddu flynyddol am y flwyddyn y maent yn gwneud cais i gofrestru. | £30 |


| Ceisiadau am Dystysgrifau Statws Proffesiynol Cyfredol | Ffi 26/27 |
|---|---|

| Ceisiadau i Gofrestru | Ffi 26/27 |
|---|---|
| Cais cychwynnol i ymuno â'r gofrestr:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau<br>gan gynnwys enillwyr incwm isel. | £80 |
| Cais am gofrestriad yn y gofrestr o fyfyrwyr-optometryddion neu'r gofrestr o fyfyrwyr-optegwyr cyflenwi ar gyfer y flwyddyn gyfan neu ran ohoni sy'n dechrau ar 1 Medi 2026 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2027. Ni chodir ffi adnewyddu flynyddol am y flwyddyn y maent yn gwneud cais i gofrestru. | £30 |
| Cais i ychwanegu arbenigedd yn y gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi. | £45 |

| | |
|---|---|
| Cais am dystysgrif statws proffesiynol cyfredol. | £30 |

| **Ceisiadau i asesu cymwysterau a enillwyd o'r tu allan i'r DU i gael mynediad i'r gofrestr o optegwyr cyflenwi neu optometryddion** | **Ffi 26/27** |
|---|---|
| Ffi craffu ar gyfer prosesu dogfennau ar gyfer ceisiadau gan ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac sy'n dymuno ymuno naill ai â'r gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi. Codir ffi ar wahân am bob cofrestr y gwneir cais iddi. | £130 |
| Ar gyfer y rhai sydd wedi pasio'r cam craffu ac sydd angen asesiad cyfwerthedd, codir ffi am y canlynol:<br>Asesid cywerthedd cymwysterau a phrofiad ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac sy'n dymuno ymuno naill ai â'r gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi. Codir ffi ar wahân am bob cofrestr y gwneir cais iddi. | £455 |
| Ffi cyfweliad ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt o Ardal Economaidd Ewrop (dyma gost cyfweliad dros y ffôn rhwng yr ymgeisydd ac aseswyr y Cyngor Optegol Cyffredinol) | £205 |





Dr Anne Wright CBE

Cadeirydd y Cyngor

Leonie Milliner

Cofrestrydd